

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

52/2017

DYDDIAD CYHOEDDI:

14/09/2017

Arolwg Cenedlaethol Cymru: profion gwybyddol o ddeunyddiau rhag blaen a chwestiwn cysyniad arolwg tai Medi 2017

Teitl: Arolwg Cenedlaethol Cymru: profion gwybyddol
deunyddiau rhag blaen a chwestiwn cysyniad arolwg tai

Awduron: Matt Jonas, Ruxandra Comanaru a Sophie Pilley
NatCen Social Research

Ar gael yn: [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)

Safbwyntiau'r ymchwilyr yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid rhai
Llywodraeth Cymru o reidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Chris McGowan

Tîm yr Arolwg Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 1067

E-bost: chris.mcgowan@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Crynodeb gweithredol	3
2.	Cefndir a methodoleg	5
2.1	Dull o gynnal yr adolygiad desg	5
2.2	Beth yw cyfweiliadau gwybyddol?	6
2.3	Beth a brofwyd?	6
2.4	Sut cynhaliwyd y profion.....	7
2.5	Recriwtio atebwyr	7
2.6	Dadansoddiad	9
2.7	Amseru	10
3.	Adolygiad desg.....	10
3.1	Deunyddiau rhag blaen	11
3.2	Adolygiad manwl o'r deunyddiau.....	11
3.3	Casgliadau adolygiad desg llythyr rhag blaen	13
3.5	Argymhellion o'r adolygiad desg deunyddiau	15
3.6	Cwestiwn cydsyniad Arolwg Amodau Tai Cymru - adolygiad desg	16
4.	Canfyddiadau ynglŷn â deunyddiau rhag blaen ac argymhellion o'r profion gwybyddol - Rownd 1	18
4.1	Llythyr a thaflen rhag blaen	18
4.1.1	Canfyddiadau allweddol - grŵp gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll	18
4.1.2	Canfyddiadau allweddol - grŵp heb grybwyll tâl cymhelliant.....	20
4.2	Cerdyn post rhag blaen	22
4.2.1	Canfyddiadau allweddol (cerdyn post gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll)	22
4.2.2	Canfyddiadau allweddol (cerdyn post heb grybwyll tâl cymhelliant).....	23
5.	Canfyddiadau ac argymhellion profion gwybyddol deunyddiau rhag blaen - Rownd 2	25
5.1	Llythyr a thaflen rhag blaen	25
5.1.1	Canfyddiadau allweddol - grŵp gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll	25
5.1.2	Canfyddiadau allweddol - grŵp heb grybwyll tâl cymhelliant.....	27
5.2	Cerdyn post rhag blaen	31
5.2.1	Canfyddiadau allweddol gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll	31
5.2.2	Canfyddiadau allweddol heb grybwyll tâl cymhelliant.....	31

6.	Cwestiwn Cydsynio Arolwg Cyflwr Tai Cymru - Rownd 1.....	33
6.1	Canfyddiadau allweddol	34
6.2	Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer cwestiwn cydsynio	35
7.	Cwestiwn Cydsynio Arolwg Cyflwr Tai Cymru - Rownd 2.....	36
7.1	Canfyddiadau allweddol	36
7.2	Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer cwestiwn cydsynio	37
8.	Amseru ac awgrym o eiriad ar gyfer cwestiwn cydsynio	38

Rhestr o dablau

Tabl 2.2. Nodweddion sampl rownd 1	8
Tabl 2.2. Nodweddion sampl rownd 2.....	9
Tabl 8.1 Ffrâm godio amcangyfrif amser fformatau cwestiwn.....	38
Tabl 8.2 Amcangyfrif amseru ar gyfer y cwestiwn cydsynio.....	39

1. Crynodeb gweithredol

- 1.1 I sicrhau fod Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnig darlun gwir o safbwyntiau a phrofiadau poblogaeth Cymru, mae'n bwysig bod cymaint o bobl ag y bo modd yn cyfranogi yn yr arolwg. Mae deunyddiau rhag blaen yr arolwg yn gwneud cyfraniad sylweddol at y broses hon. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am gael cynnal arolwg desg o ddeunyddiau rhag blaen (llythyr, taflen a cherdyn post ynghylch yr arolwg) a'u profi'n wybyddol i sicrhau eu bod yn ennyn cymaint o ddiddordeb ag y bo modd.
- 1.2 Roeddent hefyd yn dymuno i nifer o gwestiynau newydd ynghylch incwm a chwestiwn ynghylch cydsynio i arolwg tai gael eu hadolygu a'u profi fel rhan o'r broses hon. Bydd Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) yn cychwyn yng nghanol 2017, a'r Arolwg Cenedlaethol fydd y ffrâm enghreifftiol a gofynnir cwestiwn ynghylch 'cydsynio i gysylltu'. Mae'n hanfodol bod cymaint ag y bo modd o gyfranogwyr yr Arolwg Cenedlaethol yn cytuno y gall rhywun gysylltu â hwy ar ôl iddynt lenwi'r arolwg i sicrhau fod y sampl o'r WHCS mor gynrychiadol ag y bo modd. Mae hyn yn ddibynnol ar y cyfan ar eiriad y cwestiwn ynghylch cydsynio, ac mae angen iddo nodi'n glir beth fydd hynny'n ei olygu, ac ar yr un pryd, osgoi gwneud i bobl wrthod cydsynio. Mae cysylltiad cryf rhwng amgylchiadau byw ac incwm, felly mae angen ychwanegu cwestiynau manylach ynghylch incwm at yr Arolwg Cenedlaethol, yn bennaf fel y gellir eu defnyddio ynghyd â chanlyniadau WHCS. Mae incwm yn gysyniad hynod o anodd ei fesur yn gywir, felly cynhaliwyd yr adolygiad desg a'r profion gwybyddol i sicrhau fod cymaint o bobl ag y bo modd yn fodlon rhannu gwybodaeth o'r fath a allai fod yn sensitif, a bod yr wybodaeth a gesglir yn cwmpasu'r holl brif ffynonellau incwm yn gywir.
- 1.3 Er mwyn gwerthuso'r deunyddiau rhag blaen a'r cwestiynau, comisiynwyd NatCen Social Research i gynnal yr adolygiad desg a dwy rownd o gyfweiliadau profion gwybyddol. Cynhaliwyd yr adolygiad desg gan ymchwilyr yng Nghanolfan Datblygu a Phrofi Holiaduron NatCen sy'n arbenigwyr ar lunio holiaduron a chynnal cyfweiliadau gwybyddol. Fe wnaeth rheolwr ymgyrchoedd a marchnata NatCen, sydd hefyd ag arbenigedd mewn dylunio deunyddiau ac ennyn diddordeb atebwyr, hefyd gyfrannu at y gwaith o adolygu ac ail-lunio'r deunyddiau rhag blaen.
- 1.4 I gyflawni'r adolygiad hwn, defnyddiwyd fersiwn diwygiedig o'r System Gwerthuso Holiaduron (QAS-99). Mae QAS-99 yn rhestr wirio y gellir ei defnyddio i adolygu

deunyddiau a chwestiynau arolygon yn systematig i ganfod problemau posibl â geiriad neu strwythur y cwestiynau.

- 1.5 Cynhaliwyd ugain o gyfweiliadau gwybyddol wyneb yn wyneb fel rhan o ddwy rownd o brofion mewn canolfannau yng ngogledd a de Cymru. Defnyddiwyd y rownd gyntaf o brofion i nodi unrhyw broblemau sylweddol â'r deunyddiau a'r cwestiynau newydd. Defnyddiwyd yr ail rownd o brofion i ail-brofi newidiadau a wnaed i ddeunyddiau a chwestiynau wedi'r rownd gyntaf. Cafodd atebwyr eu recriwtio gan ddefnyddio cwtâu wedi'u llunio'n arbennig, i sicrhau fod amrywiaeth o gwestiynau yn cael eu holi. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n benodol ar y deunyddiau a'r cwestiwn ynghylch cydsynio. Ceir adroddiad ar wahân am y canfyddiadau ynghylch y cwestiynau yn ymwneud ag incwm.
- 1.6 Dangosodd canfyddiadau'r profion gwybyddol fod y deunyddiau a'r cwestiwn ynghylch cydsynio yn gweithio'n dda ar y cyfan. Roedd yr atebwyr yn gallu eu deall ac roeddent yn credu fod y deunyddiau yn ennyn eu diddordeb.
- 1.7 Mewn rhai achosion, awgrymwyd newidiadau bychan i eiriad a diwyg i sicrhau fod y cwestiynau yn gliriach ac yn fwy dealladwy; profwyd y newidiadau hyn yn ystod yr ail rownd.
- 1.8 Awgrymai canfyddiadau'r ail rownd o brofion fod geiriad diwygiedig y cwestiwn ynghylch cydsynio yn gweithio'n dda, ac argymhellir y dylid defnyddio'r geiriad hwn wrth gynnal y peilot. Canfuwyd y gallai'r deunyddiau elwa o newidiadau bychan ychwanegol yn eu diwyg, ond ar y cyfan, roedd y geiriad yn hawdd i'w ddeall ac yn ennyn diddordeb atebwyr.

2. Cefndir a methodoleg

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnig cyfle i bobl fynegi eu safbwyntiau ynghylch amrywiaeth o bynciau yn cynnwys eu hardal leol a diogelwch, gwasanaethau cyhoeddus (e.e. iechyd ac addysg), iechyd a llesiant personol, a gweithgareddau hamdden. Bydd yr Arolwg Cenedlaethol yn cychwyn yn 2016-17, a bydd yn disodli pum arolwg presennol yng Nghymru ac yn cynnwys oddeutu 12,000 o bobl a ddewisir ar hap ledled Cymru bob blwyddyn.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am arolwg desg o ddeunyddiau rhag blaen (a'u profi'n wybyddol i sicrhau eu bod yn ennyn cymaint o ddiddordeb ag y bo modd). Fel rhan o'r broses hon, roeddent hefyd yn dymuno cael adolygiad o gwestiynau newydd ynghylch incwm a chwestiwn ynghylch cydsyniad gan atebwyr y gall rhywun gysylltu â hwy wedi'r arolwg, a phrofi'r cwestiynau hynny. Bydd Arolwg Cyflwr Tai Cymru (WHCS) yn cychwyn yng nghanol 2017, a'r Arolwg Cenedlaethol fydd y ffrâm sampl a gofynnir cwestiwn ynddo ynghylch 'cydsynio i gysylltu'.

Mae'r adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg desg o'r deunyddiau a'r cwestiwn ynghylch cydsynio a'r ddwy rownd o brofion gwybyddol, yn ogystal ag amcangyfrifon o'r amser sydd ei angen i holi'r cwestiwn ynghylch cydsynio. Ceir adroddiad ar wahân yn cynnwys canfyddiadau'r adolygiad desg o'r cwestiynau ynghylch incwm a'r profion a wnaed ohonynt.

2.1 Dull o gynnal yr adolygiad desg

Cynhaliwyd adolygiad desg manwl gan ddau ymchwilydd yng Nghanolfan Datblygu a Phrofi Holiaduron NatCen a'u pennaeth marchnata a chyfathrebu, gan ddefnyddio fersiwn wedi'i gwtogi o'r System Gwerthuso Holiaduron (QAS 99). Mae QAS 99 yn rhestr wirio y gellir ei defnyddio i adolygu deunyddiau a chwestiynau arolygon yn systematig i ganfod problemau posibl â geiriad neu strwythur y cwestiynau. Mae QAS 99 yn nodi wyth cam y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn asesu pob cwestiwn yn unigol. Defnyddir y dull hwn yn aml i asesu cwestiynau, a chafodd ei addasu yn yr achos hwn er mwyn ystyried y deunyddiau rhag blaen hefyd. Defnyddiwyd chwe categori cyntaf QAS 99 i adolygu'r deunyddiau. Fe wnaethom ni hefyd nodi tri categori arall a ystyriwyd, sef ffontiau, brandio a diwyg a dyluniad cyffredinol. Y nod oedd nodi problemau posibl â chwestiynau cyn i'r cwestiynau hynny gael eu profi'n wybyddol. Adolygwyd y cwestiynau gan ystyried cyfarwyddiadau a diwyg pob cwestiwn, y dilyniant wedi'r cwestiynau, a'u baich ar atebwyr, ac adolygwyd y deunyddiau hefyd gan ystyried eu diwyg a'u defnyddioldeb. Yn

sgil yr adolygiad, gwnaed newidiadau i'r deunyddiau a rhai cwestiynau cyn cynnal y profion gwybyddol. Mae rhagor o fanylion am yr adolygiad desg ym Mhennod 3.

2.2 Beth yw cyfweiliadau gwybyddol?

Mae dulliau cyfweiliadau gwybyddol yn cynnig cipolwg ar brosesau meddyliol atebwyr wrth iddynt edrych ar ddeunyddiau rhag blaen ac ateb cwestiynau mewn arolygon, ac felly maent yn helpu ymchwilyr i nodi problemau â deunyddiau, geiriad cwestiynau a diwyg holiaduron. Defnyddir y dulliau hyn i ymchwilio i bedwar cam gwybyddol: (1) sut bydd atebwyr yn deall ac yn dehongli deunyddiau a chwestiynau arolygon, (2) sut byddant yn galw i gof yr wybodaeth sy'n berthnasol i'r cwestiwn, (3) y penderfyniadau byddant yn eu gwneud ynghylch pa wybodaeth i'w defnyddio i lunio eu hatebion, a'r (4) broses mapio ymatebion.

Defnyddiwyd cyfuniad o arsylwadau'r cyfwelwyr o 'feddwl ar lafar' gan yr atebwyr a chwestiynau ymchwiliol wedi'u sgriptio i brofi'r deunyddiau a chwestiynau'r arolwg. Gofynnwyd y cwestiynau ymchwiliol yn ôl-syllol ar ôl defnyddio un set o ddeunyddiau neu un set o gwestiynau ynghylch pwnc penodol.

Gan ddefnyddio'r dechneg 'meddwl ar lafar', gofynnwyd i atebwyr ddweud beth oeddent yn ei feddwl wrth iddynt gwblhau'r dasg o ddarllen y deunyddiau ac ateb y cwestiynau.

Fe wnaeth y cyfwelwyr arsylwi'r atebwyr yn agor amlenni'r deunyddiau a nodi a oeddent yn darllen y dogfennau yn fanwl neu'n sgimio drwyddynt. Edrychodd y cyfwelwyr am arwyddion o oedi neu rwystredigaeth hefyd.

Gan ddefnyddio'r dechneg 'cwestiynu ymchwiliol', holodd y cyfwelwyr gwestiynau penodol i ddeall sut oedd atebwyr yn dehongli'r deunyddiau a geiriad y cwestiwn, a pha brosesau yr oeddent yn eu dilyn wrth benderfynu sut i ateb y cwestiwn. Defnyddiwyd canllaw pynciau i gynnal y cyfweiliadau, a lluniwyd y canllaw trwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru; mae'r canllawiau pynciau o'r ddwy rownd o brofion i'w gweld yn Atodiad A.

2.3 Beth a brofwyd?

Cynhaliwyd profion gwybyddol ar ddau fersiwn o ddeunyddiau rhag blaen yr Arolwg Cenedlaethol, yn cynnwys y llythyr, y daflen a'r cerdyn post, yn ogystal â nifer o gwestiynau ynghylch incwm a chwestiwn ynghylch cydsynio i arolwg ffisegol dilynol o eiddo'r ymatebydd. Cynhaliwyd dwy rownd o brofion gwybyddol. Cynhaliwyd y gyntaf ar

10 Ionawr 2017 yng Nghaerdydd, a'r ail yn Wrecsam, Gogledd Cymru, ar 22 Ionawr 2017. Roedd rownd 2 yn cynnwys newidiadau i eiriad a diwyg y deunyddiau a'r cwestiynau, a wnaed yn sgil canfyddiadau o rownd 1.

2.4 Sut cynhaliwyd y profion

Datblygwyd protocolau'r profion gwybyddol trwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru. Roedd y protocolau hyn yn cynnwys technegau meddwl ar lafar a chwestiynu ymchwiliol.

2.5 Recriwtio atebwyr

Mae cyfweliadau gwybyddol yn ansoddol eu natur, felly mae'r samplau yn fwriadus ac wedi'u llunio i adlewyrchu ystod ac amrywiaeth y boblogaeth sydd dan sylw, yn hytrach na bod yn ystadegol gynrychiadol. Roedd y cwotâu a bennwyd ar gyfer y prosiect hwn yn adlewyrchu'r mathau o oedolion oedd yn ofynnol i sicrhau fod y gwahanol opsiynau sy'n ddilyniant i'r cwestiynau yn cael eu cwmpasu. Roedd y cwotâu yn debyg yn y ddwy rownd o brofion.

Fe wnaeth ymchwilwyr NatCen, sydd â phrofiad helaeth o gynnal cyfweliadau gwybyddol, gynnal 20 cyfweliad yn ystod y ddwy rownd. Cafodd atebwyr eu cyfweld mewn man cyfarfod niwtral yn y ddau leoliad, hynny yw, roedd y man cyfarfod yn lleoliad cymunedol, nid cartrefi'r atebwyr na swyddfa'r ymchwilwyr. Fe wnaeth y cyfweliadau bara oddeutu awr a gwnaed recordiad sain ohonynt â chaniatâd yr atebwyr. Rhoddwyd cydnabyddiaeth ariannol o £20 i atebwyr i ddiolch iddynt am eu help ac i dalu am unrhyw gostau teithio yn rownd gyntaf y profion, a £25 yn ail rownd y profion i annog pobl hunangyflogedig i gyfranogi.

Cafodd atebwyr y ddwy rownd o brofion gwybyddol eu recriwtio cyn y profion trwy law asiantaeth recriwtio. Cynhaliwyd holiaduron sgrinio i recriwtio atebwyr trwy amrywiaeth o ddulliau, yn cynnwys ar y stryd ac mewn canolfannau siopau neu fannau cyhoeddus eraill. Cynhaliwyd cyfweliadau Rownd 1 y profion yng Nghaerdydd a chyfweliadau Rownd 2 yn Wrecsam, er mwyn profi'r cwestiynau ag amrywiaeth bobl o dref fawr a thref lai mewn gwahanol rannau o Gymru. Gwnaed hynny oherwydd gallai lleoliad daearyddol effeithio ar atebion atebwyr i gwestiynau'r arolwg. Cynhaliwyd deg cyfweliad ym mhob lleoliad. Cafodd dau ymatebydd ychwanegol eu recriwtio i ateb adran ynghylch incwm hunangyflogaeth dros y ffôn. Gwnaed hynny oherwydd fe wnaeth atebwyr ganslo ar y diwrnod y cynhaliwyd y gwaith maes, i gyflawni'r cwota o atebwyr hunangyflogedig yn

Rowndiau 1 a 2. Mae Tabl 2.1 yn dangos nodweddion y sampl o gyfweiliadau gwybyddol Rownd 1, ac Thabl 2.2 yn dangos nodweddion sampl cyfweiliadau gwybyddol Rownd 2.

Tabl 2.2. Nodweddion sampl rownd 1

Rownd 1, Caerdydd		Nifer â'r nodwedd
Rhywedd	Gwryw	4
	Benyw	6
Oedran	18-29	2
	30-49	3
	50-64	2
	65+	3
Cymhwyster uchaf	Safon Uwch/Uwch Atodol neu well	4
	TGAU neu gymwysterau is	6
Statws cyflogaeth	Cyflogedig	6
	Hunangyflogedig	0
	Di-waith	4
Mwy nag un swydd	Oes	1
	Nac oes	9
Hawlio budd-dal	Ydy	6
	Nac ydy	4

Tabl 2.2. Nodweddion sampl rownd 2

Rownd 2, Wrecsam		Nifer â'r nodwedd
Rhywedd	Gwryw	4
	Benyw	5
Oedran	18-29	2
	30-49	4
	50-64	2
	65+	2
Cymhwyster uchaf	Safon Uwch/Uwch Atodol neu well	4
	TGAU neu gymwysterau is	6
Statws cyflogaeth	Cyflogedig	5
	Hunangyflogedig	1
	Di-waith	4
Mwy nag un swydd	Oes	1
	Nac oes	9
Hawlio budd-dal	Ydy	4
	Nac ydy	6

2.6 Dadansoddiad

Cafodd y cyfweiliadau eu crynhoi a'u mapio gan ymchwilyr, ac fe wnaethant adolygu recordiad sain pob cyfweiliad, yr atebion i'r arolwg, ac unrhyw nodiadau a gofnodwyd ar daflenni'r cwestiynau ymchwiliol. Mae mapio yn golygu fod yr holl grynodedau o'r cyfweiliadau yn cael eu cofnodi ar gofnod Excel sydd â strwythur penodol. Cafodd yr ymatebion i bob deunydd a'r cwestiwn arbrolfol eu nodi yn y matrices, ynghyd â sylwadau a wnaed gan y cyfwelwyr, unrhyw nodiadau ynghylch 'meddwl ar lafar' ac ymatebion i'r cwestiynau ymchwiliol wedi'u sgrïptio. Felly, gellir darllen data yn llorweddol fel cofnod o achos cyfan unigolyn, neu yn fertigol fesul cwestiwn, gan ystyried bob achos. Ar ôl cwblhau'r matrices, cafodd y data yn y matrices eu hadolygu yn thematig. Mae'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y drafodaeth i adrodd yn ôl, a oedd yn cynnwys yr ymchwilyr a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, yn ogystal â dadansoddiad llawn o'r data.

2.7 Amseru

Yn nhablau 8.1 ac 8.2, rydym ni wedi darparu amcangyfrifon o'r amser oedd ei angen i ofyn y cwestiwn ynghylch cydsynio a brofwyd yn wybyddol. Nodwyd dau amser; mae'r cyntaf yn deillio o broses codio ble nodir amser amcangyfrifedig ar gyfer cwestiwn ar sail y math o gwestiwn (mae rhagor o fanylion ynghylch y broses codio ar gael ym Mhennod 8). Hefyd, cafodd y cwestiwn ei amseru yn cael ei ofyn a'i ateb ddwywaith, ac yna, cofnodwyd amser cyfartalog y cwestiwn.

3. Adolygiad desg

Adolygwyd y deunyddiau a'r cwestiwn yn unol â'r amcanion sy'n ymwneud â'r rhan hon o'r prosiect.

Profi deunyddiau rhag blaen:

- **Amcan un:** Archwilio pa mor dda yw'r deunyddiau rhag blaen o ran eu gallu i berswadio atebwyr i gyfranogi ac ymddiddori yn yr Arolwg Cenedlaethol, ac archwilio ymatebion i gymhellion (neu ddiffyg cymhellion);
- **Amcan dau:** Canfod a yw'r atebwyr yn ystyried fod y deunyddiau yn glir ac yn hawdd eu deall.

Profi'r cwestiynau:

- **Amcan un:** Sicrhau fod cwestiynau'r arolwg a'r dewisiadau ateb yn glir ac yn hawdd eu deall, fod amrywiaeth digonol o ddewisiadau ateb wedi'u darparu, a nodi unrhyw gwestiynau sy'n neilltuol o broblemus;
- **Amcan tri:** Canfod a oes unrhyw is-grwpiau penodol o'r boblogaeth yn debygol o wynebu anawsterau wrth geisio ateb unrhyw gwestiynau;
- **Amcan pedwar:** Archwilio a wnaiff y cwestiwn ynghylch cydsynio a gynhwysir yn WHCS uchafu'r cyfraddau cydsynio a deall beth ellid ei wneud i sicrhau hyn;

3.1 Deunyddiau rhag blaen

Yn yr adran hon, rydym yn adolygu deunyddiau arfaethedig yr arolwg, yng nghyd-destun newidiadau blaenorol i ddeunyddiau'r arolwg a ffactorau cyd-destunol eraill.

Yn 2016-17, mae cyfraddau'r ymateb i'r arolwg wedi bod yn is na'r disgwyl. Un ffactor sy'n cyfrannu at hyn yw'r lefel uwch na'r disgwyl o wrthodiadau mewn swyddfeydd ac wrth garreg y drws. Gall cyfraddau gwrthod, ac yn enwedig gwrthod mewn swyddfeydd, gael eu heffeithio gan ddeunyddiau rhag blaen. Bwriad y gwaith o adolygu a phrofi'r deunyddiau rhag blaen a wneir yma yw cynorthwyo i leihau'r cyfraddau gwrthod hyn.

Yn 2016-17, mae dau set o lythyrau rhag blaen wedi cael eu hanfon. Rydym ni'n nodi dau fater allweddol mewn perthynas â'r dull hwn:

- **Dryswch ynghylch pwy yw'r anfonwr.** Mae'r ddau lythyr rhag blaen yn defnyddio diwyg gwahanol ac iaith wahanol i ddisgrifio'r arolwg. Gallai hyn arwain at ddryswch ymhlith cyfranogwyr, ac efallai na fyddant yn gweld y cysylltiad rhwng y ddau lythyr yn syth. Hefyd, gallai dau anfonwr arwain at leihad yn nilysrwydd rhagdybiedig yr arolwg.
- **Bydd gohebiaeth ychwanegol yn sicrhau rhagor o ymateb.** Mae hyn yn gyffredin yn achos ymchwil trwy arolygon, ac wrth anfon unrhyw ohebiaeth trwy'r post, bydd anfon gohebiaeth ychwanegol yn arwain at gynnydd yn nifer yr ymatebion, rhai cadarnhaol a negyddol. Felly, gallai'r cynnydd yn nifer y gwrthodiadau mewn swyddfeydd ddeillio o anfon dau lythyr rhag blaen yn lle un.

Bwriad y prosiect presennol yw lleihau effaith y materion hyn.

3.2 Adolygiad manwl o'r deunyddiau

Mae'r adran hon yn cynnig adolygiad manylach o'r deunyddiau unigol, gan ddefnyddio dull sy'n cyfuno elfennau o QAS 99 ag ystyriaethau ynghylch diwyg ac elfennau sy'n aml yn peri dryswch i gyfranogwyr yr arolwg.

Methodoleg yr adolygiad

Cafodd y llythyr a'r cerdyn post rhag blaen arfaethedig eu hadolygu gan ddefnyddio addasiad o QAS 99. Fe wnaethom ni ddefnyddio'r chwe chategori cyntaf i adolygu'r llythyr cyfan:

- Darllen
- Cyfarwyddiadau
- Eglurder
- Rhagdybiaethau
- Gwybodaeth
- Sensitifrwydd

Fe wnaethom ni hefyd gynnwys tri chategori ychwanegol i ymdrin ag agweddau gweledol y llythyr a'r cerdyn post:

- Ffont
- Brandio a'r diwyg yn gyffredinol
- Dyluniad

Yn yr adolygiad hwn, rydym ni wedi ystyried canllawiau ymarfer gorau NatCen wrth lunio llythyrau rhag blaen. Maent yn cynnwys: defnyddio ffont maint 12pt neu fwy; defnyddio eiconau ac is-benawdau i rannu'r cynnwys; pennawd neu far ochr i grynhoi'r buddion; defnyddio un brand, yr un a ystyrir yn fwyaf awdurdodol; logos priodol er mwyn sicrhau fod pethau'n glir, ond nid yn ddryslyd; a sicrhau cydbwysedd rhwng testun a gwagleoedd.

Elfennau a allai beri dryswch

Mae ein hymchwil ansoddol gyda chyfranogwyr, a gynhelir wrth ddatblygu deunyddiau ar gyfer arolygon cenedlaethol o bwys, wedi nodi tair elfen allweddol a all beri dryswch sy'n dod i'r amlwg yn aml, a gall y rhain effeithio'n negyddol ar gyfraddau ymateb:

- Nid yw cyfranogwyr yn deall beth sydd ei angen, h.y. cyfweliad.
- Nid yw cyfranogwyr yn gwybod pwy sy'n gwneud y cais, ac nid ydynt yn credu ei fod yn ddilys.
- Nid yw cyfranogwyr yn deall diben yr ymchwil, na'i effaith posibl.

Ystyrir pob un o'r rhain yn yr adolygiad hwn.

3.3 Casgliadau adolygiad desg llythyr rhag blaen

Tabl	Adolygiad llythyr rhag blaen	
	<i>Sylwadau</i>	<i>Argymhellion</i>
Darllen	Mae'r llythyr yn hawdd i'w ddarllen. Mae profion natur ddarllenadwy safonol yn ystyried hyn i fod yn addas ar gyfer pobl 14-15 oed. ¹ Yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol o Sgiliau Oedolion yng Nghymru 2010 mae gan oddeutu 12% o'r boblogaeth sgiliau llythrennedd islaw Lefel 1. ² Felly, mae lleihau oedran darllen llythyrau yn allweddol er mwyn sicrhau detholiad mor eang â phosibl o ddarllenwyr.	Addasiadau i'r testun, dangosir yn Atodiad B.
Cyfarwyddiad au	Mae'r cyfarwyddiadau'n rhesymol glir. Mae yna nifer o feysydd posibl a allai beri dryswch: (i) nid yw'n glir ar unwaith, heb ddarllen y rhan fwyaf o'r llythyr, beth sy'n ofynnol h.y. cyfweliad; ac (ii) mae yna bosibiliad am ddryswch o ran dethol cartrefi.	Cynnwys cyfeiriad at y cyfweliad ei hun yn gynharach yn y llythyr. Gweler y newidiadau arfaethedig i'r testun yn Atodiad B.
Eglurder	Mae brawddegau i gyd yn syml gyda gramadeg da. Ni ddefnyddir unrhyw dermau technegol.	Dim.
Rhagdybiaeth au	Ni wneir unrhyw dybiaethau amhriodol.	Dim.
Gwybodaeth	Ni thbyir unrhyw wybodaeth.	Dim.
Sensitifrwydd	Nid yw'r llythyr yn cynnwys cyfeiriadau at wybodaeth na phynciau sensitif, ac eithrio crybwyll data cyfrinachol.	Dim.
Ffont	Mae'r llythyr wedi ei argraffu mewn ffont maint 11.5.	Dylid defnyddio maint ffont 12 neu fwy yn unol â chanllawiau hygyrchedd safonol.
Brandio a dylunio	Mae'r llythyr yn defnyddio'r un brandio â chyfathrebiadau cyfredol Llywodraeth Cymru, a'u gwefan. Nid yw'r llythyr yn cynnwys logo'r ONS, felly er mwyn deall rhan yr ONS yn yr astudiaeth rhaid darllen corff y llythyr.	Er mwyn adnabod LIC fel y sefydliad sy'n rhedeg yr arolwg, awgrymwn gynnwys logo LIC yn unig ar y llythyr a chynnwys logo'r ONS (yn ogystal â LIC) ar y cerdyn post.
Gosodiad	Mae'r llythyr yn defnyddio is-benawdau i rannu'r cynnwys. Fodd bynnag, mae yna adrannau yn crynhoi'r manteision i'r derbynnydd, i'w galluogi i ddarllen trwyddo'n gyflym. Mae'r llythyr yn defnyddio ffiniau llydan ac mae digon o ofod gwyn.	Creu crynodeb o fuddiannau, naill ai gyda bar ymyl neu bennyn. Gweler Atodiad B ar gyfer y penynnau arfaethedig.

¹ Gan ddefnyddio sgorau cyfartalog o'r graddfeydd natur ddarllenadwy canlynol: Lefel Gradd Fleisch-Kincaid, Sgôr Gunning-Fog, Mynegai Coleman-Liau, Mynegai SMOG a'r Mynegai Natur Ddarllenadwy Awtomataidd.

² <http://gov.wales/docs/caecd/research/111208NatSurvAdultSkillsWales2010cy.pdf>

3.4 Casgliadau adolygiad desg terfynol

Tabl 3:3 Adolygiad cerdyn post		
	Sylwadau	Argymhellion
Darllen	Mae'r cerdyn post yn hawdd i'w ddarllen; mae ganddo frawddegau byr, mae'n defnyddio geirfa syml heb lawer o ddefnydd o'r cyflwr goddefol. Mae profion natur ddarllenadwy safonol yn ystyried hyn i fod yn addas ar gyfer pobl 11-12 oed.	Dim.
Cyfarwyddiad au	Mae'r esboniad o beth sy'n digwydd nesaf yn glir.	Dim.
Eglurder	Mae brawddegau i gyd yn syml gyda gramadeg da. Ni ddefnyddir unrhyw dermau technegol.	Dim.
Rhagdybiaeth au	Ni wneir unrhyw dybiaethau amhriodol.	Dim.
Gwybodaeth	Ni thibir unrhyw wybodaeth.	Dim.
Sensitifrwydd	Nid yw'r cerdyn post yn cynnwys cyfeiriadau at wybodaeth na phynciau sensitif.	Dim.
Ffont	Mae'r cerdyn post wedi ei argraffu mewn ffont maint 11.5.	Dylid defnyddio maint ffont 12 neu fwy yn unol â chanllawiau hygyrchedd safonol.
<i>Brandio a dylunio</i>	Mae'r cerdyn post yn cyd-fynd â brandio'r llythyr rhag blaen. Defnyddir logo Llywodraeth Cymru ar un ochr i'r cerdyn post yn unig. Nid yw'r cerdyn post yn cynnwys logo'r ONS. Gan fod y cerdyn post yn cael ei anfon mewn amlen, efallai y bydd derbynwyr yn ei ddiarddel fel post cyffredinol heb ei agor.	Os bydd y cerdyn post yn dal i gael ei anfon mewn amlen, defnyddio amlenni brand Llywodraeth Cymru. Cynnwys logo'r ONS ar y cerdyn post. Defnyddio logos ar ddwy ochr y cerdyn post, i sicrhau bod cywirdeb a tharddiad y cyfathrebiad yn glir.
Gosodiad	Mae'r gosodiad yn glir a hawdd i'w ddilyn i'r darllenwr.	Dim.

3.5 Argymhellion o'r adolygiad desg deunyddiau

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n hargymhellion ar gyfer newidiadau i'r deunyddiau gwreiddiol ar gyfer rownd gyntaf y profion gwybyddol.

Ymagwedd awgrymedig i ddeunyddiau rhag blaen

- Ystyriwch un cyfathrebiad rhag blaen yn unig. Gallai defnyddio un llythyr rhag blaen yn unig helpu lleihau gwrthodiadau swyddfa. Awgrymwn fod cyfwelwyr yr ONS yn anfon un llythyr unigol yn fuan cyn dechrau galw mewn cyfeiriadau.
- Dau sefydliad. Dylid cynnwys brandio Llywodraeth Cymru ar gyfathrebiadau, ond dylai hefyd gynnwys logo'r ONS. Bydd hyn yn helpu gwneud rôl yr ONS yn fwy eglur.

Argymhellion llythyr rhag blaen

- Ffont. Cynyddu maint y ffont i 12pt i gydymffurfio gyda chanllawiau hygrychedd.
- Addasiadau i'r testun. Rydym yn awgrymu rhai mân newidiadau i'r testun yn y llythyr er mwyn ei symleiddio a'i wneud mor glir â phosibl.
- Pennyn. Cynnwys pennyn i grynhoi'r llythyr, fel nad oes rhaid i'r cyfranogwyr ddarllen y llythyr cyfan. Byddai hyn hefyd yn le addas i brofi crybwyll yr ysgogiad yn y cyfnod profion gwybyddol.

Argymhellion cerdyn post

- Ffont. Cynyddu maint y ffont i 12pt i gydymffurfio gyda chanllawiau hygrychedd.
- Amlen brand. Os bydd yr eitem yn dal i gael ei anfon mewn amlen, defnyddio amlenni brand Llywodraeth Cymru.
- Logos ar y ddwy ochr. Cynnwys logos Lywodraeth Cymru a'r ONS ar ddwy ochr y cerdyn post, i sicrhau ei fod wedi ei adnabod fel cyfathrebiad Llywodraeth Cymru a'r ONS pa bynnag och fydd rhywun yn edrych arni.

Cynigion ar gyfer profi deunyddiau rhag blaen

Cynigiom ddwy fersiwn o'r llythyr rhag blaen a cherdyn post i'w defnyddio yn y profion gwybyddol; gellir gweld y dogfennau a brofwyd yn y rownd gyntaf yn atodiad B.

3.6 Cwestiwn cydsyniad Arolwg Amodau Tai Cymru - adolygiad desg

Adolygwyd y cwestiwn cydsyniad arfaethedig yn defnyddio addasiad o QAS99. Rydym wedi defnyddio'r chwe chategori cyntaf a'u defnyddio gyda'r cwestiwn yma. Os oes problem yn bresennol, rhoddir ateb cadarnhaol a chrynodeb o'r broblem:

- Darllen
- Cyfarwyddiadau
- Eglurder
- Rhagdybiaethau
- Gwybodaeth
- Sensitifrwydd

GOFYN A YW YMATEBWR YW'R PCC NEU GYMAR/PARTNER

HcsPerm

Fel dilyniant pwysig i'r arolwg hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni Arolwg Amodau Tai i gael gwybodaeth am gartrefi sydd wedi eu meddiannu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth ar faterion megis effeithlonrwydd ynni a chyflwr cyffredinol a bydd yn darparu gwybodaeth allweddol i Lywodraeth Cymru i'w ddefnyddio wrth osod polisïau, neilltuo adnoddau cysylltiedig i dai ac asesu a thaclo'r lefel o dlodi tanwydd yng Nghymru. Er mwyn gwneud hyn, hoffem drefnu i syrfëwr ymweld i edrych ar eich tŷ ar adeg sy'n gyfleus i chi.

Bydd y syrfëwr yn edrych yn yr holl brif ystafelloedd a thu allan i'ch cartref. Ni fydd yn symud nac amharu ar unrhyw beth. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn derbyn adroddiad yn amlinellu casgliadau'r syrfëwr.

A fydddech chi'n fodlon cymryd rhan yn yr Arolwg Amodau Tai?

COD SENGL

Byddwn

Na fyddwn

Darllen - Dim problemau

Cyfarwyddiadau - Canfuwyd problemau - mae angen taflen i gyd-fynd â'r cwestiwn hwn gyda mwy o wybodaeth ar beth sydd ynghlwm i gymryd rhan. Mae yna gwestiwn tebyg yn yr English Housing Survey ac fe ddarperir taflen ddilynol. Dylai'r cwestiynau hefyd gynnwys faint o amser y bydd disgwyl i'r archwiliad gymryd. Os bydd rhywun yn rhentu, gallai fod yn ddefnyddiol dweud nad oes rhaid gofyn i'r landlord neu rydd-ddeiliad os ydynt eisiau cymryd rhan. Darn arall defnyddiol o wybodaeth yw beth yn benodol fydd y syrfëwr yn edrych arno, a beth fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad a ddarperir iddynt. Hefyd, brawddeg gryno i roi gwybod ar gyfer beth y gallai'r canlyniadau fod yn ddefnyddiol iddynt – fel arfer mae'n costio ychydig gannoedd o bunnoedd i syrfëwr ysgrifennu adroddiad ar dŷ felly efallai y bydd hyn yn ysgogiad defnyddiol.

Eglurder - Canfuwyd problemau - efallai na fydd pobl yn gwybod beth yw tlodi tanwydd. Awgrymu cynnwys brawddeg fer i esbonio hyn.

Tybiaethau - Dim problemau

Gwybodaeth/cof - Dim problemau

Sensitifrwydd/tuedd- Dim problemau

Categoriâu ymateb - Dim problemau

Arall - Dim problemau eraill

4. Canfyddiadau ynglŷn â deunyddiau rhag blaen ac argymhellion o'r profion gwybyddol - Rownd 1

4.1 Llythyr a thaflen rhag blaen

Gosodwyd llythyr a thaflen ynglŷn â'r arolwg (gweler Atodiad B) mewn amlen a'u rhoi i ymatebwyr. Gofynnwyd i'r ymatebwyr ddychmygu eu bod wedi derbyn yr amlen trwy'r post a beth fyddent yn ei wneud â hi. Wedi i'r cyfwelwyr ystyried eu hymateb naturiol i'r deunyddiau, holwyd cwestiynau dilynol i'r ymatebwyr er mwyn canfod beth oeddent yn ei feddwl o'r deunyddiau. Derbyniodd hanner yr ymatebwyr ddeunyddiau a oedd yn crybwyll tâl cymhelliant o £10 a derbyniodd yr hanner arall ddeunyddiau heb unrhyw gyfeiriad at dâl cymhelliant. Dylid nodi bod ymatebwyr wedi cael £20 am gymryd rhan yn y cyfweiliadau gwybyddol, felly mae'n bosibl bod eu barn am dâl cymhelliant o £10 wedi ei ystumio.

4.1.1 Canfyddiadau allweddol - grŵp gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll

Golwg a theimlad ar y cyfan

- Dywedodd pob un o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn y byddent yn agor yr amlen oherwydd bod logo LIC arni.
- Byddai'n well ganddynt dderbyn y deunyddiau mewn amlen frown gan fod hynny'n cael ei weld yn fwy swyddogol. Nododd ymatebwyr nad oedd post sothach fyth yn cyrraedd mewn amlenni brown.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hoffi'r lliw coch ar gyfer penawdau a'r testun du gan fod hyn yn amlygu ble roedd toriad yn y testun. Fodd bynnag, dywedodd un ymatebydd ei fod yn edrych "fel bil nwy".
- Roedd pobl yn hoff o'r logos ar waelod y llythyr ac yn eu cysylltu â phynciau yr oeddent yn tybio allai godi yn ystod y cyfweiliadau.
- Roedd pob un o'r ymatebwyr wedi sylwi ar y pennawd ar y llythyr ac yn dweud iddo beri iddynt fod yn fwy tebygol o ddarllen y llythyr cyfan.
- Dywedwyd y gellid ei gwneud yn fwy eglur bod un ochr i'r daflen yn Gymraeg gan ei bod yn ymddangos fel pe bai llawer o wybodaeth arni ac y gallai hynny fod yn rhwystr.

- Dywedodd un ymatebwr ei fod yn meddwl bod y daflen yn edrych fel hysbyseb oherwydd y llun o'r castell ar y blaen.

Eglurder gwybodaeth

- Roedd pob ymatebwr yn meddwl bod y wybodaeth yn y llythyr yn eglur ac yn hawdd ei deall.
- Roedd pawb wedi hoelio sylw ar y ffaith bod yr astudiaeth yn ymwneud â helpu i wella gwasanaethau lleol ac roeddent yn disgwyl cael eu holi am yr amgylchedd, trafnidiaeth, addysg a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi deall y byddai rhywun yn dod i'w cartref ac yn dethol un o'r preswylwyr i gymryd rhan mewn cyfweiliad wyneb-yn-wyneb. Roeddent yn credu y byddai'r cyfweiliad yn golygu y byddai rhywun yn eu holi am eu barn ynglŷn â gwasanaethau lleol. Fodd bynnag, roedd un ymatebwr a oedd wedi bwrw golwg gyflym dros y llythyr yn holi a fyddai'r cyfweiliad yn cael ei gynnal wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn.
- Roedd ymatebwyr yn deall bod yr ymadroddion 'at bwrpas ymchwil yn unig' a 'cael eu defnyddio at bwrpas ystadegol yn unig' yn golygu y byddai eu data'n cael eu cadw'n gyfrinachol, mai dim ond rhifau fyddai'n cael eu defnyddio ac y byddai darlun yn cael ei greu o'r rhifau er mwyn galluogi'r llywodraeth i benderfynu pa wasanaethau y mae angen eu gwella.
- Roedd un ymatebwr yn cwestiynu pam roedd ei thŷ hi wedi ei ddewis, ond doedd hynny ddim yn rhwystr iddi.
- Credai rhai ymatebwyr bod y daflen yn ailadrodd rhywfaint o'r wybodaeth oedd yn y llythyr.

Tâl cymhelliant a chyfranogi

- Dywedodd pob un o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn y byddent yn cymryd rhan mewn cyfweiliad.
- Dywedodd rhai y byddent yn cymryd rhan heb dâl cymhelliant oherwydd bod gwella gwasanaethau yn bwysig; byddai rhai eraill yn cael eu perswadio gan y tâl cymhelliant. Roedd crybwyll y GIG a gwasanaethau addysg yn abwyd arbennig i rai o'r ymatebwyr, a oedd yn dweud bod y rhain yn bynciau 'llosg' ar hyn o bryd.
- Nid oedd £10 o anghenraid yn cael ei ystyried yn ddigon o gymhelliant, gan ddibynnu ar y baich y byddai'r cyfweiliad yn ei roi arnynt e.e. pa mor hir fyddai, byddai rhaid iddynt

dacluso'r cartref a chael y plant allan o'r ffordd. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr a gredai hyn yn dweud y byddent yn cymryd rhan yn y cyfweiliad beth bynnag.

- Dywedodd un ymatebwr y byddai'n well ganddi petai'r tâl cymhelliant ar ffurf arian parod oherwydd nad oedd yn gwybod ble gallai'r daleb gael ei defnyddio ac efallai y byddai ar gyfer siop nad oedd hi'n ei hoffi.
- Pan ofynnwyd iddynt beth fyddent yn ei wneud petaent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweiliad, wnaeth yr un o'r ymatebwyr ddweud y byddent yn galw'r rhif ffôn a roddwyd ar y llythyr i drefnu apwyntiad.
- Cododd un ymatebwr bryder ynglŷn â chael cyfwelydd yn galw mewn cartrefi ble mae pobl sy'n agored i niwed yn byw, ac ynglŷn â dethol y bobl iawn i siarad â hwy.
- Dywedodd un ymatebwr y byddai'n galw'r rhif ffôn a roddwyd yn y llythyr pe na byddai am gymryd rhan mewn cyfweiliad; dywedodd y lleill mai dim ond taflu'r llythyr fyddent yn ei wneud.

4.1.2 Canfyddiadau allweddol - grŵp heb grybwyll tâl cymhelliant

Golwg a theimlad ar y cyfan

- Roedd yn well gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn amlen wen gan eu bod yn cysylltu amlen frown â biliau. Awgrymodd un ymatebwr hefyd y dylai logo LIC fod yn fwy amlwg ar gefndir gwyn. Roedd yn eglur i bob un ohonynt fod y deunyddiau'n cael eu hanfon atynt gan LIC a byddai hynny'n gwneud iddynt agor yr amlen.
- Nododd un ymatebydd nad oedd yn gwybod beth oedd y logos ar waelod y llythyr yn eu cynrychioli, ond roedd eraill wedi eu cysylltu â phynciau fyddai'n cael sylw yn y cyfweiliad.
- Roedd rhai ymatebwyr heb ddarllen pennawd y llythyr - roeddent wedi dechrau darllen o brif gorff y testun.
- ar y cyfan, roedd y lliw coch yn cael ei gysylltu â Chymru. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr wedi meddwl am roi gwaed ac am lythyrau'n hawlio taliad.
- Fe wnaeth ychydig o'r ymatebwyr ofyn pa gastell oedd yn cael ei ddangos ar flaen y daflen a chwestiynu a oedd yr ystadegau a ddefnyddiwyd ar y daflen yn gywir. Roeddent yn credu bod y daflen yn cynnwys lefel dda o wybodaeth, h.y. bod dim ond digon i ddweud wrthynt am yr astudiaeth, ac nad oedd gormod i allu cael ei darllen yn rhwydd.

Eglurder gwybodaeth

- Roedd yr ymatebwyr yn meddwl bod y wybodaeth yn y llythyr a'r daflen yn hawdd ei deall ac roeddent yn falch bod y daflen yn Gymraeg hefyd.
- Roedd pobl yn credu bod yr astudiaeth yn ymwneud â chasglu barn pobl am wasanaethau lleol a dod i wybod beth oeddent yn ei feddwl.
- Roedd un ymatebwr eisiau gwybod pa mor hir fyddai'r cyfweiliad.
- Roedd ymatebwyr yn deall bod yr ymadroddion 'at bwrpas ymchwil yn unig' a 'cael eu defnyddio at bwrpas ystadegol yn unig' yn golygu y byddai data'n cael eu defnyddio i greu ystadegau a fyddai'n galluogi'r llywodraeth i wneud penderfyniadau ynglŷn â pha wasanaethau fyddai angen eu gwella ac i weld a oedd consensws cyffredinol ynghylch pethau. Soniodd un ymatebydd am y Cyfrifiad, gan esbonio bod yr holl ganlyniadau'n cael eu hadrodd fesul grŵp yn hytrach nag ar gyfer unigolion ac felly nad oedd modd eich adnabod chi.

Tâl cymhelliant a chyfranogi

- Tra byddai rhai ymatebwyr yn cymryd rhan heb dâl cymhelliant (roeddent yn credu bod gwella gwasanaethau yn bwysig), dywedodd y rhai a oedd wedi dweud na fyddent yn cymryd rhan y byddent yn ailystyried petai tâl cymhelliant o £10 yn cael ei gynnig. Roedd un o'r ymatebwyr nad oedd yn barod i gymryd rhan oni bai bod tâl cymhelliant yn credu mai LIC yn unig fyddai'n elwa o'r ymchwil, ac nid ef ei hun.
- Roedd un ymatebwr yn falch o weld y gallai'r cyfweiliad gael ei gynnal yn Gymraeg.
- Os nad oedd ymatebwyr eisiau cymryd rhan mewn cyfweiliad, byddent yn taflu'r deunyddiau.
- Byddai rhai ymatebwyr yn gyndyn i adael cyfwelydd i mewn i'w cartref, er na wnaethant esbonio pam. Nododd un ymatebwr y byddai'n gadael i rywun gyfweld ag ef yn ei gartref petai'n derbyn £20. Dywedodd un arall y byddai'n well ganddi gael cyfweiliad ffôn.

4.1.3 Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer llythyr rhag blaen

- Gellid ychwanegu brawddeg fer at y llythyr yn esbonio y gallai'r daleb gael ei defnyddio mewn amryw o siopau. Os credir bod hynny'n briodol, gellid enwi rhai siopau poblogaidd, er enghraifft Boots neu M&S.
- Yn ddibynnol ar gostau a'r amser fyddai ei angen ar gyfer newid, gellid defnyddio amlen frown i anfon y deunyddiau recriwtio i'r darpar gyfranogwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod hynny'n fwy swyddogol hyd. yn oed os oedd hynny'n cael ei weld yn beth negyddol. Fodd bynnag, roedd gweld brand LIC ar yr amlen yn bwysig iawn i ymatebwyr ac efallai na fyddai hynny wedi'i amlygu cystal ar amlen frown. Efallai y dylid ystyried rhoi'r brand mewn coch os bydd yr amlen yn frown.
- Rydym yn argymhell cynnig tâl cymhelliant oherwydd, er y byddai rhai ymatebwyr yn fodlon cymryd rhan heb un, byddent yn fwy tebygol o wneud petai tâl cymhelliant yn cael ei roi.
- Dylid cynnwys y cyfeiriad at dâl cymhelliant ym mhennawd y llythyr - roedd hyn fel petai'n achosi i'r teitl ddal y llygad yn well ac roedd pobl yn fwy tebygol o fod eisiau darllen y llythyr yn llawn.

4.2 Cerdyn post rhag blaen

- 4.1 Wedi i'r ymatebwyr orffen edrych ar y daflen a'r llythyr, rhoddwyd amlen A5 iddynt â cherdyn post A5 ynddi (gweler atodiad B). Dywedwyd wrthynt am ddychmygu eu bod wedi derbyn hwn yn y post ryw bythefnos ar ôl cael y llythyr a'r daflen. Cafodd hanner yr ymatebwyr (y rhai a oedd wedi derbyn llythyr yn cyfeirio at £10 o dâl cymhelliant) gerdyn post a oedd yn cyfeirio at y £10 o dâl cymhelliant; cafodd yr hanner arall gerdyn post heb unrhyw sôn am y tâl cymhelliant arno.

4.2.1 Canfyddiadau allweddol (cerdyn post gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll)

- Dywedodd yr ymatebwyr y byddent yn cofio'r llythyr a'r daflen yr oeddent wedi eu derbyn ac y byddent yn sylweddoli bod cysylltiad rhwng y cerdyn post a'r llythyr/daflen oherwydd y defnydd o logo LIC.
- Roedd ambell ymatebwr yn deall bod y logos ar gefn y cerdyn post yn gysylltiedig â'r meysydd fyddai'n cael sylw yn yr arolwg; fodd bynnag, roedd eraill yn credu ei fod yn rhy

blaen neu'n orliwgar gyda dim ond y logos ar y cefn. Awgrymon nhw y dylid cyfeirio at y llythyr mewn rhyw ffordd ar gefn y cerdyn post.

- Roedd yr ymatebwyr yn credu bod y wybodaeth a roddwyd ar y cerdyn post yn fanwl a phwrpasol, ond fe awgrymwyd bod y print yn rhy fân ac y gellid ei wneud yn fwy.
- I rai, ar yr olwg gyntaf, roedd fel petai mwy o wybodaeth ar y cerdyn post. Awgrymodd un ymatebwr y dylid ei gwneud yn fwy eglur bod un ochr wedi'i ysgrifennu yn Saesneg a'r ochr arall yn Gymraeg.
- Dywedodd un ymatebwr y byddai hi eisiau gwybod pryd yn union y byddai rhywun yn galw. Roedd un arall yn teimlo y byddai derbyn y cerdyn post pe na fyddai hi wedi gwneud apwyntiad yn 'ymwthgar'.
- Dywedodd un ymatebwr ei bod hi'n meddwl bod yr amlen A5 yn sefyll allan fwy na'r amlen a ddefnyddiwyd ar gyfer y llythyr a'r daflen gan ei bod yn rhywbeth nad yw'n arfer ei derbyn. Byddai'n well gan bob un o'r ymatebwyr dderbyn y cerdyn post mewn amlen ac mae'n debyg y byddent yn ailgylchu'r cerdyn post gan feddwl mai 'sothach' ydoedd pe na bai'n cyrraedd mewn amlen.
- Byddai'n well gan ddau o'r ymatebwyr dderbyn y wybodaeth oedd ar y cerdyn post ar ffurf llythyr. Roedden nhw'n credu bod llythyrau'n fwy ffurfiol a bod pobl yn fwy tebygol o ddarllen dogfennau ffurfiol megis llythyrau treth y maent yn eu derbyn trwy'r post.

4.2.2 Canfyddiadau allweddol (cerdyn post heb grybwyll tâl cymhelliant)

- Unwaith eto, byddai pobl yn cysylltu'r cerdyn post gyda'r llythyr a'r daflen oherwydd y defnydd o logo LIC.
- Byddai'n well ganddynt petai'r cerdyn post mewn amlen rhag iddo gael ei gymysgu gyda phost sothach. Dim ond un o'r ymatebwyr ddywedodd y byddai'n edrych arno heb amlen; y defnydd o logo LIC oedd yn gyfrifol am hyn.
- Tra bod yr ymatebwyr yn deall pwrpas y cerdyn post, doedden nhw ddim o anghenraid yn hoff o'i olwg. Awgrymodd un ei fod yn edrych fel cerdyn rhoi gwaed oherwydd y defnydd o goch; dywedodd un arall ei fod yn gwneud iddo feddwl bod arno arian i rywun. Doedd rhai eraill ddim wedi cysylltu'r symbolau ar gefn y cerdyn post gyda'r rhai a ddefnyddiwyd ar y llythyr.

- Roedd ymatebwyr yn y grŵp hwn wedi sôn am faint y print hefyd ac wedi dweud y gallai gael ei osod dros ofod mwy er mwyn iddo fod yn fwy darllenadwy.
- Roedd rhai ymatebwyr yn credu y byddent yn teimlo eu bod yn cael eu plagio pe bai cyfwelydd yn galw a hwythau heb gytuno i gymryd rhan mewn cyfweiliad. Roedd un yn tybio mai dim ond y rhai oedd wedi cytuno i gymryd rhan fyddai'n cael y cerdyn post; fel arall, roedd yn meddwl ei fod yn wastraff arian.
- Awgrymodd un ymatebwr y gallai 'yn ystod yr wythnos nesaf' fod yn ddryslyd ac y byddai'n fwy eglur pryd roedd y cyfwelydd am ddod petaent yn ysgrifennu dyddiad dechrau'r wythnos yno.

4.2.3 Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer cerdyn post

- Awgrymwn y dylid anfon y cerdyn post mewn amlen. Byddai hyn yn golygu bod ymatebwyr yn fwy tebygol o'i ddarllen oherwydd bod cymaint o daflenni 'sothach' yn cyrraedd. Dylai lliw'r amlen fod yn gyson â'r un a ddefnyddir ar gyfer y llythyr a'r daflen.
- Rydym yn argymhell y dylid ychwanegu rhyw fath o gyfeiriad at y llythyr at gefn y cerdyn post gan fod ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o gysylltiad gyda'r deunyddiau yr oeddent eisoes wedi eu derbyn. Galli hyn fod ar ffurf teitl yr arolwg neu'r pennawd o'r llythyr - mae'n dibynnu beth fyddai'n ffitio. Er mwyn gwneud lle i'r wybodaeth hon ar y cerdyn post, gellid symud y logos ar y cefn i lawr a rhoi llai o'r lliw coch. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn meddwl bod y cerdyn post yn 'orliwgar' ac wedi gwneud sylwadau ynglŷn â faint o goch oedd arno, felly gallai lleihau'r bloc mawr coch ateb y pryderon hyn hefyd.
- Dewis arall fyddai ysgrifennu un ochr i'r cerdyn post yn Gymraeg, gan gynnwys y pennawd o'r llythyr, a'r ochr arall yn Saesneg. Byddai hyn hefyd yn golygu y gellid gwneud y print yn fwy.
- Awgrymwn y dylid edrych i weld a oes modd gwneud y print ychydig yn fwy er mwyn ateb pryderon bod yr ysgrifen yn rhy fân.
- Awgrymwn y dylid ei gwneud yn fwy eglur bod un hanner i'r cerdyn post yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg, fel bod ymatebwyr ddim yn meddwl bod gormod o wybodaeth i'w darllen os byddant yn cadw at un ochr. Trwy ychwanegu llinell syml rhwng y ddwy, dylai'r gwahaniaeth fod yn fwy amlwg i'r darllenwyr.
- Nid ydym yn argymhell newid y cyfeiriad at 'yn ystod yr wythnos nesaf' gan y byddai hyn yn creu rhagor o waith i'r cyfwelydd yn ysgrifennu ar bob cerdyn post.

5. Canfyddiadau ac argymhellion profion gwybyddol deunyddiau rhag blaen - Rownd 2

5.1 Llythyr a thaflen rhag blaen

Gwnaed newidiadau i'r llythyr yn seiliedig ar yr argymhellion o'r rownd gyntaf o brofion. Gellir gweld y deunyddiau a brofwyd yn yr ail rownd yn Atodiad C. Wedi i'r cyfwelwyr ystyried ymateb naturiol yr ymatebwyr i'r deunyddiau, holwyd cwestiynau dilynol iddynt er mwyn canfod beth oeddent yn ei feddwl o'r deunyddiau. Derbyniodd hanner yr ymatebwyr ddeunyddiau a oedd yn crybwyll tâl cymhelliant o £10 a derbyniodd yr hanner arall ddeunyddiau heb unrhyw gyfeiriad at dâl cymhelliant. Dylid nodi bod ymatebwyr wedi cael £25 am gymryd rhan yn y cyfweiliadau gwybyddol, felly mae'n bosibl bod eu barn am dâl cymhelliant o £10 wedi ei ystumio.

5.1.1 Canfyddiadau allweddol - grŵp gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll

Golwg a theimlad ar y cyfan

- Dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn agor yr amlen petaent yn ei derbyn. Dywedodd rhai y byddent yn darllen y llythyr a'r daflen yn fanwl a dywedodd eraill y byddent yn bwrw golwg gyflym drostynt.
- Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn hoff o'r ysgrifen goch a'r ffaith bod y prif bwyntiau yn y llythyr mewn print bras. Roeddent yn meddwl bod hyn yn hoelio eu sylw ar y wybodaeth bwysig. Dywedodd un person bod yr ysgrifen goch yn ei atgoffa o lythyron hawlio tâl ac roedd yn meddwl y byddai rhai pobl yn cael eu dieithrio gan hyn.
- Roedd teimlad bod logo LIC yn dangos yn glir gan bwy roedd y llythyr.
- Dywedodd rhai pobl y byddent yn fwy tebygol o agor amlen frown gan fod hynny'n cael ei weld yn swyddogol, a bod deunyddiau gan asiantaethau megis y DVLA yn cyrraedd mewn amlenni brown, ac am fod amlenni gwyn yn cael eu cysylltu â phost sothach. Dywedodd un ymatebwr na fyddai lliw'r amlen yn gwneud unrhyw wahaniaeth a dywedodd un arall na fyddai hi eisiau agor amlen frown gan y byddai'n peri iddi deimlo bod arni hi arian i rywun.
- Roedd un o'r ymatebwyr heb sylwi ar y pennawd ar frig y llythyr a dywedodd ei fod eisiau dechrau darllen yn syth er mwyn cael gwybod am beth oedd yn sôn. Sylwodd eraill ar y

pennawd a dywedon nhw iddo beri iddynt fod yn fwy tebygol o ddarllen y cynnwys yn llawn.

- Roedd un o'r ymatebwyr yn meddwl na fyddai rhai pobl yn cymryd rhan yn yr arolwg, ond nad y llythyr fyddai achos hyn. Dywedodd hi na fyddai'r bobl hyn am roi eu hamser ar gyfer astudiaeth ac na fyddent eisiau bod rhywun yn dod i'w cartref.
- Nododd un ymatebwr y gellid gwneud y faner ar waelod y llythyr ychydig yn fwy er mwyn ei gwneud yn haws i'w darllen.
- Roedd yr ymatebwyr yn hoff o'r daflen ac yn ei disgrifio fel un gyfeillgar. Roedd un person yn arbennig o hoff o'r blychau canfyddiadau a oedd yn denu ei llygad.
- Gwnaeth un o'r ymatebwyr sylw cyffredinol ynglŷn â phwysigrwydd cynnwys pobl sydd â nam ar eu golwg a phobl nad yw'r Saesneg na'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn yr astudiaeth. Awgrymodd ef y gellid rhoi rhif ffôn ar y daflen ar gyfer gwneud cais am ddeunyddiau mewn iaith arall.

Eglurder gwybodaeth

- Roedd yr ymatebwyr yn meddwl bod y wybodaeth yn y llythyr a'r daflen yn eglur ac yn hawdd ei deall.
- Roedden nhw'n deall y byddai'r arolwg yn ymwneud â gwella gwasanaethau lleol. Dywedodd un ymatebwr nad oedd wedi darllen y deunyddiau'n llawn y byddai ef eisiau gwybod pa wasanaethau'n benodol oedd gan LIC ddiddordeb ynddynt.
- Roedden nhw'n meddwl bod y term 'cyfweliad' yn golygu y byddai rhywun yn dod draw i gael sgwrs ffurfiol ac i siarad â nhw am eu barn am wasanaethau lleol.
- I'r ymatebwyr, roedd 'at bwrpas ymchwil yn unig' yn golygu mai dim ond ar gyfer yr arolwg y byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio ac na fyddai'n cael ei throsglwyddo i gwmnïau marchnata.

'Fydden nhw ddim yn defnyddio unrhyw wybodaeth breifat amdanaf i na'm teulu a dim ond rhywbeth sylfaenol, cyffredinol yw e am beth mae pobl yng Nghymru'n ei feddwl' (Cyfeirnod: SP02, Benyw, Oed: 65+, wedi ymddeol)

- Ar sail y sylw am wybodaeth yn cael ei defnyddio at bwrpas ystadegol yn unig, doedd yr ymatebwyr ddim yn meddwl y byddai LIC yn edrych ar ddata unigolion gyda chysylltiad â'u cyfeiriad, ond y byddent yn edrych yn hytrach ar ddata yn ôl ystod oedran neu'r rhywiau.

- Roedd un o'r ymatebwyr o'r farn y gallai geiriad y llythyr mewn rhai mannau ddieithrio pobl:

'Roedd "Mae angen i ni gyfweld â rhywun yn eich cartref chi" yn annymunol gan ei fod yn rhoi'r argraff bod hyn yn orfodol. Dylid dweud fe hoffem ni. Mae'n rhoi'r argraff y byddwch mewn trafferth os nad ydych yn eu ffonio i drefnu apwyntiad.' (Cyfeirnod: SP04, Gwryw, Oed: 50-64, Cyflogedig)

Tâl cymhelliant a chyfranogi

- Dywedodd pob un o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn y byddent yn cymryd rhan mewn cyfweiliad. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig gwella gwasanaethau lleol, y byddai'n helpu pobl eraill a'i bod yn braf y byddent yn cael rhywbeth am wneud hynny.
- Dywedodd un ymatebwr y byddai hi'n ffonio i wneud apwyntiad i rywun ei chyfweld, dywedodd un arall y byddai e'n debygol o wneud hynny, ond efallai na fyddai'n cael amser i wneud. Roedd rhai eraill yn tybio y byddai cyfwelydd yn cysylltu â nhw.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai rhoi'r llythyr a'r daflen i'r naill ochr neu eu taflu fyddent pe na baent eisiau cymryd rhan yn yr arolwg. Dywedodd un y byddai'n ffonio, er mwyn peidio â gwastraffu amser y cyfwelydd.
- Tra bod pob un o'r ymatebwyr yn dweud ei bod yn dda cael cynnig y £10 o dâl cymhelliant, dywedon nhw y byddent yn cymryd rhan hyd yn oed os nad oedd yn cael ei gynnig.
- Nododd dau o'r ymatebwyr bod pennawd y llythyr yn rhoi'r argraff mai arian parod oedd y tâl cymhelliant er mai taleb ydoedd mewn gwirionedd. Roedden nhw o'r farn y gallai hyn godi gwrychyn pobl oedd yn disgwyl derbyn arian parod.

5.1.2 Canfyddiadau allweddol - grŵp heb grybwyll tâl cymhelliant

Golwg a theimlad ar y cyfan

- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn y byddent yn agor yr amlen ac yn darllen y llythyr a'r daflen. Dywedodd rhai eraill ei bod yn bosibl na fyddent yn gwneud hynny, gan ddibynnu ar amser, gan fod y llythyr yn edrych fel post sothach braidd oherwydd yr ysgrifen goch. Byddai'r enw y cyfeiriwyd y llythyr ato yn ffactor arall. Dywedodd un

ymatebwr, a oedd yn byw mewn cartref ar rent, y byddai unrhyw beth sy'n cael ei gyfeirio at y cartref yn gyffredinol yn cael ei roi mewn drôr a ddim yn cael ei ddarllen, ond fe nododd hi ei bod yn bosibl y byddai logo LIC yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn ei ddarllen.

- Roedd un ymatebwr o'r farn y byddai'r llythyr yn well o ychwanegu rhagor o liwiau. Roedd un arall yn hoffi'r ysgrifennu goch ac yn dweud bod hyn yn peri iddi fod yn fwy tebygol o ddarllen y llythyr cyfan. I eraill, doedd dim gwahaniaeth pa liwiau a ddefnyddiwyd.
- Roedd yr ymatebwyr yn hoffi'r defnydd o logo Llywodraeth Cymru ac yn gweld ei fod yn symbol o Gymru ac o falchder cenedlaethol.
- Unwaith eto, roedd gwahaniaethau o ran pa mor debygol fyddai'r ymatebwyr o ddarllen y deunyddiau pe baent yn dod mewn amlen frown neu amlen wen. Dywedodd rhai bod amlen frown yn cael ei hystyried yn fwy swyddogol ac y byddai hynny'n eu gwneud yn fwy tebygol o roi sylw i'r cynnwys. Roedd un ymatebwr yn meddwl y dylid defnyddio amlen liw, dywedodd un na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth iddi hi a byddai'n well gan un gael amlen wen. Nid oedd yr ymatebwr a nododd y byddai amlen wen yn well yn gallu dweud pam.
- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi sylwi ar y pennyn coch ar y llythyr. Roedd yn ymatebwr wedi dechrau darllen o adran 'Annwyl breswilydd' y llythyr. Dywedodd rhai fod y pennyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn darllen gweddill y llythyr ac yn golygu bod mwy o ddiddordeb ganddynt mewn cymryd rhan tra bod eraill wedi dweud nad oedd yn gwneud gwahaniaeth o ran eu ddiddordeb yn yr astudiaeth.
- Roedd yr ymatebwyr yn ymateb yn dda i'r daflen. Roedden nhw'n hoffi ei golwg, yn enwedig y llun o'r castell.

Eglurder gwybodaeth

- Roedd yr ymatebwyr yn meddwl bod y deunyddiau yn hawdd i'w darllen a'u deall. Roedden nhw'n credu eu bod yn gryno a phwrpasol.
- Nododd un o'r ymatebwyr y byddai hi eisiau i ganlyniadau eraill gael sylw ar y daflen yn hytrach na'r ganran o bobl sy'n defnyddio'r rhyngwyd yn unig gan nad oedd ganddi ddiddordeb yn hynny.

- Roedd yr ymatebwyr yn y grŵp hwn yn meddwl bod y term 'cyfweliad' yn golygu rhywun yn dod i'w cartref i holi cwestiynau. Roedden nhw'n deall nad holiadur i'w lenwi fyddai, ond yn hytrach y byddai cyfwelydd yn gofyn y cwestiynau.
- Roedden nhw'n meddwl bod 'y canlyniadau i'w defnyddio at bwrpas ymchwil ac ystadegol yn unig' yn golygu y byddai'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol, na fyddai'n cael ei defnyddio at bwrpas marchnata, ac mai dim ond ar ffurf ystadegau y byddai'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno, mewn modd tebyg i'r Cyfrifiad.
- Dywedodd un ymatebwr y byddai hi eisiau cael gwybod mwy am y cyfweliad, er enghraifft, am faint o amser fyddai'n parhau. Dywedodd un arall bod 'mae eich cyfeiriad wedi ei ddedhol' yn swnio braidd yn 'amheus' - byddai hi eisiau gwybod pam roedd ei thŷ hi wedi ei ddewis.
- Dywedodd un ymatebwr sydd â mab anabl y gellid cynnwys CD â rhywun yn darllen y dogfennau arni ar gyfer rhai, fel ei mab hi, nad ydynt yn gallu darllen.

Tâl cymhelliant a chyfranogi

- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl yn y grŵp hwn y byddent yn hapus i gymryd rhan mewn cyfweliad. Roedden nhw'n falch bod gan LIC ddiddordeb yn eu barn, roedden nhw eisiau helpu i wella eu hardal leol, ac roedden nhw'n deall nad oedd modd cael rhywun arall yn eu lle. Dywedodd ymatebwyr eraill y byddai'n dibynnu pa mor feddylgar o'u cymuned roedden nhw'n teimlo ar y dydd; soniodd rhai y byddai'n well ganddynt wneud y cyfweliad ar-lein neu y byddai'n well ganddynt fynd i leoliad arall ar gyfer y cyfweliad yn hytrach na chael rhywun yn dod i'w cartref. Fodd bynnag, dywedodd un o'r ymatebwyr y byddai hi'n debygol o gydsynio i gael cyfweliad petai rhywun yn dod at ei drws.
- Dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn cymryd rhan mewn cyfweliad hyd yn oed heb gael cynnig tâl cymhelliant oherwydd bod gwella gwasanaethau lleol yn bwysig. Roedd y bobl hyn yn credu, fodd bynnag, y gallai £10 o dâl cymhelliant wneud gwahaniaeth gyda phobl eraill nad oeddent eisiau cymryd rhan. Dywedodd ymatebwyr eraill y byddent yn fwy tebygol o gymryd rhan petai tâl cymhelliant yn cael ei gynnig oherwydd bod 'amser yn arian' ac y byddai'n teimlo fel gwasanaeth cymunedol fel arall.
- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddent yn cysylltu i drefnu apwyntiad ar gyfer cyfweliad. Dywedodd rhai eraill y byddent yn aros i'r cyfwelydd alw. Pan ofynnwyd beth fyddent yn ei wneud pe na baent eisiau cymryd rhan, dywedodd pawb y byddent yn taflu'r llythyr a'r daflen.

5.1.3 Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer llythyr rhag blaen

- Rydym yn argymhell y dylid cadw' geiriad y llythyr a'r daflen fel y maent. Roedd yr ymatebwyr yn meddwl bod y ddau yn hawdd i'w deall, ac roedd yn eglur iddynt beth oedd testun yr astudiaeth a beth fyddai'n digwydd nesaf.
- Awgrymwn y gellid newid y penawdau coch yn y llythyr i liw arall; fodd bynnag, mae'n bwysig eu cadw mewn print bras. Roedd rhai ymatebwyr wedi ymateb yn dda i'r defnydd o'r lliw coch ar gyfer y penynnau, ond roedd rhai eraill yn ei weld yn annymunol.
- Awgrymwn hefyd, os oes lle ar ben y llythyr, y dylid ei gwneud yn eglur mai taleb yw'r £10, nid arian parod. Roedd ambell i ymatebwr wedi gwneud sylw ynglŷn â'r ffaith ei bod yn ymddangos y byddai arian parod yn cael ei roi er, fel y dywedir yng ngeiriad y llythyr, nad yw hynny'n wir.
- Roedd yr ymatebwyr wedi eu rhannu o ran eu barn ynglŷn â pha liw fyddai orau ar gyfer yr amlen ar gyfer anfon y deunyddiau - brown neu wyn. Awgrymwn, os oes modd, y dylid anfon y deunyddiau cyntaf mewn amlen frown gan fod y llythyr a'r daflen yn fwy 'swyddogol' a bod hynny'n aml yn cael ei gysylltu ag amlenni brown. Gellir anfon y cerdyn post mwy anffurfiol mewn amlen wen. Byddai hynny'n sicrhau, y byddai pobl sy'n gwahaniaethu o ran lliw amlen yn agor o leiaf un ffurf ar gyfathrebu ynglŷn â'r arolwg.

5.2 Cerdyn post rhag blaen

Unwaith eto, gwnaed newidiadau i'r cerdyn post rhag blaen yn sgil argymhellion a wnaed yn dilyn rownd 1. Wedi i'r ymatebwyr orffen edrych ar y daflen a'r llythyr, rhoddwyd amlen A5 iddynt â cherdyn post A5 ynddi (gweler atodiad C). Dywedwyd wrthynt am ddychmygu eu bod wedi derbyn hwn yn y post ryw bythefnos ar ôl cael y llythyr a'r daflen. Cafodd hanner yr ymatebwyr gerdyn post a oedd yn cyfeirio at y £10 o dâl cymhelliant a chafodd yr hanner arall gerdyn post heb unrhyw gyfeiriad at y tâl cymhelliant arno.

5.2.1 Canfyddiadau allweddol gyda'r tâl cymhelliant wedi ei grybwyll

- Dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn darllen y cerdyn post petaent yn ei dderbyn trwy'r post a bod yr wybodaeth ar y cerdyn post yn eglur.
- Roeddent i gyd yn credu y byddent yn cofio'r llythyr ac y byddent yn gweld cysylltiad rhwng y ddau beth oherwydd bod logo a baner LIC ar hyd y gwaelod yn cyfateb ar y ddau.
- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y byddent yn darllen y cerdyn post heb amlen oherwydd eu bod yn edrych ar bopeth sy'n dod trwy'r drws a bod modd gweld y wybodaeth yn syth. Dywedodd rhai eraill y byddent yn meddwl mai 'sothach' ydoedd ac na fyddent yn ei ddarllen pe na bai'n cyrraedd mewn amlen.
- Dywedodd yr ymatebwyr na fyddai ganddynt unrhyw bryderon eraill ynglŷn â derbyn y cerdyn post heb amlen.
- Roedd dau o'r ymatebwyr o'r farn bod y print ar y cerdyn post yn rhy fân ac yn awgrymu y dylid gwneud y ffont yn fwy.
- Roedd yr ymatebwyr yn hoffi'r ffaith bod y cerdyn post yn ddwyieithog. Yn gyffredinol, nid oedd teimlad bod unrhyw beth yn dieithrio pobl; fodd bynnag, soniodd un nad oedd dyddiad penodol pryd byddai'r cyfwelydd yn galw wedi ei nodi a dywedodd y byddai'n poeni na fyddai gartref gan ei fod yn gweithio shifftiau.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr mai taflu'r cerdyn fyddent pe na baent eisiau cymryd rhan yn yr arolwg. Nododd dau y byddent yn ffonio'r cyfwelydd er mwyn osgoi gwastraffu eu hamser.

5.2.2 Canfyddiadau allweddol heb grybwyll tâl cymhelliant

- Unwaith eto, dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn darllen y cerdyn post petaent yn ei dderbyn trwy'r post. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn yn credu y byddent yn gwneud y cysylltiad rhwng y llythyr a'r cerdyn post hyd yn oed ar ôl pythefnos. Nododd un y byddai wythnos yn gyfnod amser gwell, o bosibl, cyn derbyn y cerdyn post gan fod posibilrwydd na fyddai'n cofio'r llythyr ar ôl pythefnos. Fodd bynnag, roedd hi'n credu y byddai logo LIC yn procio'i chof.
- Cafwyd ymatebion cymysg gan yr ymatebwyr i'r syniad o dderbyn y cerdyn post heb neu gydag amlen. Dywedodd rhai na fyddent yn ei ddarllen pe na bai mewn amlen a dywedodd rhai eraill y byddent yn fwy tebygol o'i ddarllen pe na bai mewn amlen. Roedd un ymatebwr yn credu y dylai gael ei gyfeirio at unigolyn yn hytrach nag at y preswilydd.
- Roedd pob un o'r ymatebwyr yn credu bod y wybodaeth ar y cerdyn post yn eglur iawn; fodd bynnag, roedd ychydig yn credu ei fod braidd yn blaen ac yn awgrymu y gallai'r logos fod yn fwy. Dywedodd un ymatebwr nad oedd hi wedi sylwi ar logo'r ONS ar y llythyr ac roedd hi o'r farn y dylid ei gynnwys ar y llythyr a'r cerdyn post..
- Roedd un ymatebwr yn credu y dylid gwneud y cyfeiriad at yr Arolwg Cenedlaethol yn fwy amlwg.
- Doedd yr ymatebwyr ddim yn gweld unrhyw beth fyddai'n eu dieithrio, ond roedd rhai yn pendroni ynghylch pryd yn union y byddai rhywun yn galw. Roedden nhw'n awgrymu efallai y byddent yn galw rhif y cyfwelydd i gael gwybod.
- Os nad oedd pobl eisiau cymryd rhan, byddai rhai yn ffonio'r cyfwelydd i roi gwybod iddynt a byddai rhai eraill yn taflu'r cerdyn post i'r bin. Soniodd un ymatebwr y byddai hi eisiau anfon neges destun i ddweud nad oedd yn gallu cymryd rhan a'i bod yn gobeithio felly y byddai'r rhif a roddir yn rhif ffôn symudol.

5.2.3 Argymhellion ac awgrymiadau

- Rydym yn argymhell y dylid anfon y cerdyn post mewn amlen. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr y byddent yn ei ddarllen pe bai'n cyrraedd mewn amlen, tra bod rhai'n dweud na fyddent yn edrych arno pe na bai'n cyrraedd mewn amlen. Fel y nodwyd uchod, gan mai hwn yw'r lleiaf ffurfiol o'r deunyddiau, awgrymwn y dylid defnyddio amlen wen.
- Awgrymwn y dylid ychwanegu teitl yr arolwg at flaen y cerdyn post er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cerdyn post a'r llythyr ymhellach, ac i wneud yr ochr honno i'r cerdyn post yn llai plaen.
- Awgrymwn y dylid cynyddu maint ffont y cerdyn post gymaint ag sy'n bosibl.

- Awgrymwn hefyd y dylid darparu rhif ffôn symudol y cyfwelydd ar y cerdyn post er mwyn caniatáu i'r ymatebwyr anfon neges destun atynt os mai dyma sy'n well ganddynt.

6. Cwestiwn Cydsynio Arolwg Cyflwr Tai Cymru - Rownd 1

Fel y nodwyd yn gynharach, bydd y rhai sy'n cymryd rhan yn Arolwg Cyflwr Tai Cymru (ACTC) yn cael eu dethol o blith ymatebwyr yr Arolwg Cenedlaethol sy'n cytuno i gymryd rhan yn ACTC. Cafodd y cwestiwn sy'n ceisio cydsyniad i gymryd rhan yn ACTC ei brofi yn rhan o'r prosiect hwn.

HcsPerm

Fel dilyniant pwysig i'r arolwg hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Arolwg Cyflwr Tai. Bydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth ar faterion megis effeithlonrwydd ynni a bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu sut i fynd i'r afael â materion tai ledled Cymru. Er mwyn gwneud hyn, hoffem drefnu ymweliad gan syrfëwr i ddod i gael golwg ar eich tŷ chi ar amser sy'n gyfleus i chi.

Bydd y syrfëwr yn edrych ym mhob un o'r prif ystafelloedd a'r tu allan i'ch cartref. Ni fyddant yn symud nac yn tarfu ar unrhyw beth. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r syrfëwr. Cedwir eich holl fanylion personol yn gyfrinachol a dim ond at bwrpas ymchwil y bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi o unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir.

Fyddech chi'n fodlon cymryd rhan?

COD SENGL

Byddwn

Na fyddwn

6.1 Canfyddiadau allweddol

- Ymateb cymysg a gafwyd gan yr ymatebwyr i'r cwestiwn cydsynio.
- Fe wnaeth rhai ymatebwyr gydsynio ac fe roddwyd y rhesymau canlynol am wneud hynny:
 - Mae ganddynt blentyn, felly maent eisiau gwybod a yw eu cartref ar rent yn ddiogel.
 - Gallai'r arolwg helpu i wella'r stoc tai yn gyffredinol.
 - Diddordeb mewn gweld yr adroddiad a ph'un ai oes eisiau unrhyw welliannau ar eu tŷ.
 - Yn byw dan amodau gwael ac yn dymuno gweld rhywbeth yn cael ei wneud am hynny.
- Rhoddodd y rhai a atebodd na i'r cwestiwn hwn y rhesymau canlynol:
 - Methu gweld y budd iddyn nhw'n bersonol.
 - Roedd yn rhywbeth na fyddai amser ganddynt ar ei gyfer.
 - Fydden nhw ddim yn teimlo'n gyfforddus â rhywun yn edrych o gwmpas eu cartref.
 - Eisiau gwybod sut gallai hyn helpu'n ehangach oherwydd nad oeddent yn teimlo y byddai edrych ar eu tŷ nhw, sydd dan eu perchnogaeth nhw, yn cael effaith gyffredinol.
 - Nid nhw oedd Person Cyswllt y Cartref (PCC) na'u partner, felly fydden nhw ddim yn teimlo'n gysurus yn cydsynio.
'rhywun yn cerdded o gwmpas eich tŷ, er nad ydyn nhw'n mynd i gyffwrdd â dim byd, rwy'n dal i deimlo bod hynny'n anghysurus' (Cyfeirnod: HL05, Benyw, Oed: 30-49, Perchennog y Cartref)
- I rai ymatebwyr, roedd sôn am adroddiad yn ddigon i'w perswadio i gymryd rhan. Roedd ymatebwyr eraill y teimlo y gellid eu perswadio gyda thâl cymhelliant; fodd bynnag, cafodd symiau o £50 a £100 eu crybwyll a dywedwyd na fyddai'n werth y drafferth am lai na hynny.
- Roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddai'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni, iechyd a diogelwch, presenoldeb tamprwydd, asbestos neu bryfed pren, cyflwr ffenestri a larymau tân, gwerth y tŷ a'r adeiladwaith.
- Fe wnaeth un ymatebydd sy'n rhentu holi a fyddai angen iddi gael cydsyniad y landlord er mwyn cymryd rhan. Roedd hi'n hapus i wneud hynny ond yn pryderu y gallai

adroddiad greu tensiwn rhyngddi hi a'i landlord, gyda'r berthynas rhyngddynt yn un dda ar hyn o bryd.

6.2 Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer cwestiwn cydsynio

- Awgrymwyn y dylid ychwanegu brawddeg ar gyfer y rhai sy'n rhentu eu cartref, er mwyn eu sicrhau y gallant roi caniatâd ar gyfer ymweliad y syrfêwr ac na fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â landlordiaid. Y geiriad ar gyfer cwestiwn cydsynio Cymraeg yr Arolwg Tai ydy:

Does dim angen i chi ymgynghori â'ch rhydd-ddeiliad neu'ch landlord.

- Gellid ychwanegu geiriad at hyn er mwyn rhoi sicrwydd i bobl na fydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'u rhydd-ddeiliad neu eu landlord.
- Ni fyddai'r cwestiwn hwn yn cael ei ofyn i unrhyw un nad yw'n PCC neu ei bartner, a dim ond gyda PCC neu ei bartner y caiff ei brofi yn ail rownd y profion.
- Rydym yn argymhell y dylai'r daflen sy'n mynd gyda'r cwestiwn hwn roi rhagor o fanylion ynglŷn â'r hyn fyddai'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad a sut y gallai edrych ar eu cartref nhw helpu pobl eraill.

7. Cwestiwn Cydsynio Arolwg Cyflwr Tai Cymru - Rownd 2

Cafodd geiriad y cwestiwn ei ddiwygio ar sail canfyddiadau'r rownd gyntaf o brofion a chafodd ei ailbrofi yn ail rownd y cyfweiliadau gwybyddol.

HcsPerm

Fel dilyniant pwysig i'r arolwg hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Arolwg Cyflwr Tai. Bydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth ar faterion megis effeithlonrwydd ynni a bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu sut i fynd i'r afael â materion tai ledled Cymru. Er mwyn gwneud hyn, hoffem drefnu ymweliad gan syrfëwr i ddod i gael golwg ar eich tŷ chi ar amser sy'n gyfleus i chi.

Bydd y syrfëwr yn edrych ym mhob un o'r prif ystafelloedd a'r tu allan i'ch cartref. Ni fyddant yn symud nac yn tarfu ar unrhyw beth. [OS YDYCH CHI'N RHENTU Nid oes angen i chi ymgynghori â'ch landlord.] Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r syrfëwr. Cedwir eich holl fanylion personol yn gyfrinachol a dim ond at bwrpas ymchwil y bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi o unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir.

NID OES ANGEN I YMATEBWYR YMGYNGHORI Â CHWMNŪAU RHEOLI FFLATIAU NAC UNRHYW FATH ARALL O RYDD-DDEILIAD

Fyddech chi'n fodlon cymryd rhan?

COD SENGL

Byddwn

Na fyddwn

7.1 Canfyddiadau allweddol

- Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt y byddent yn hapus i syrfëwr ymweld â'u tŷ.
- Nid fyddai un o'r ymatebwyr yn fodlon cydsynio oherwydd nad oedd ei gŵr yn hoffi cael pobl yn mynd i'r tŷ ac ni fyddai tâl cymhelliant o unrhyw faint yn ei berswadio i newid ei feddwl.
- Rhoddodd pobl nifer o resymau dros fod eisiau cymryd rhan: er mwyn derbyn copi o'r adroddiad, oherwydd eu bod yn byw mewn eiddo tamp ac eisiau rhagor o wybodaeth am hynny ac oherwydd eu bod yn byw mewn ardal 'arw' ac yn gobeithio y gallai'r arolwg ar y cyfan helpu gyda phroblemau lleol.

- Mynegwyd gobaiith y byddai'r adroddiad y byddent yn ei dderbyn yn cynnwys gwybodaeth am werth yr eiddo ac yn nodi a ellid gwneud gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni.
- Roedd un ymatebwr o'r farn bod adroddiad yn fwy gwerthfawr nac arian neu daleb cymhelliant ac roedd crybwyll yr adroddiad yn gwneud pobl yn fwy tebygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn. Petai tâl cymhelliant yn cael ei gynnig, roedd pobl yn credu y byddai £10 yn briodol. Dywedodd un ymatebwr a oedd eisoes wedi dweud y byddai hi'n cymryd rhan y byddai hi'n fwy tebygol o gydsynio petai taleb yn cael ei chynnig yn gymhelliant.
- Dywedodd un ymatebwr y byddai ef eisiau gwybod y byddai gan y syrfêwr fathodyn adnabod; roedd un arall eisiau darllen geiriad y cwestiwn ei hunan er mwyn bod yn siŵr eu bod yn deall yn iawn beth fyddai'n digwydd. Cyfeiriodd un ymatebwr at y ffaith bod y cwestiwn yn nodi na fyddai'r syrfêwr yn symud nac yn tarfu ar unrhyw beth; serch hynny, gan fod ei bwylwr hi yn y groglofft, roedd hi'n meddwl y byddai rhaid mynd yno i gyrraedd ato. Nid oedd hyn yn ei gwneud yn llai tebygol o gydsynio i'r cwestiwn.
- Nid oedd y rhai oedd yn rhentu yn y sampl hwn wedi holi a fyddai angen iddynt wirio gyda'u landlord cyn rhoi eu caniatâd.

7.2 Argymhellion ac awgrymiadau ar gyfer cwestiwn cydsynio

- Ar sail canfyddiadau ail rownd y profion gwybyddol, rydym yn argymhell y dylid cadw geiriad y cwestiwn fel y mae uchod. Byddai'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn hapus i gydsynio ac nid oedd ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn ag ymweliad syrfêwr.
- Awgrymwn y dylid rhoi adroddiad byr i'r ymatebwyr i'w cymell i gymryd rhan. Mae angen ystyried yn drylwyr pa wybodaeth y mae'n ymarferol ei chynnwys yn yr adroddiad hwn a dylid rheoli disgwyliadau'r ymatebwyr trwy esbonio beth fyddai'n cael ei gynnwys yn y daflen fydd gyda'r cwestiwn.

8. Amseru ac awgrym o eiriad ar gyfer cwestiwn cydsynio

Mae Tabl 8.2 yn rhoi amcan o'r amseru ar gyfer y cwestiwn cydsynio a gafodd ei brofi'n wybyddol. Defnyddiwyd y cwestiwn a ofynnwyd yn yr ail rownd er mwyn creu'r amcangyfrifon amseru. Cyfrifwyd y cyfartaledd amser trwy gael y cwestiwn wedi ei ofyn a'i ateb gan ddau ymchwilydd a nodi cyfartaledd amser.

Cafodd cod ei ddynodi ar gyfer y cwestiwn hefyd trwy ddefnyddio ffrâm godio sydd wedi ei defnyddio o'r blaen wrth asesu hyd cwestiynau'r Arolwg Cenedlaethol. Rhoddwyd rhif i'r cwestiwn a oedd yn ddibynnol ar ei fath, er enghraifft cwestiwn agored neu gwestiwn cod sengl syml. O'r rhif a ddynodwyd, ceir rhagamcan o'r amseru ar gyfer y cwestiwn. Gellir gweld y codau a ddefnyddiwyd yn y broses hon yn nhabl 8.1.

Tabl 8.1 Ffrâm godio amcangyfrif amser fformatau cwestiwn

	Rhif math:	Amcangyfrif o gyfraniad at gymedr hyd cyfweliad (mun)
Syml (e.e. byr ie/na neu godau syml eraill)	1	0.25
Cod sengl cymhleth (e.e. bonyn cwestiwn hir neu restr o godau ateb)	2	0.37
Amlgod cymhleth (fel uchod ond yn amlgod)	3	0.75
Cwestiwn agored (gair am air neu ymateb amlgod gan y cyfwelydd)	4	0.66
Datganiadau agwedd wedi'u hailadrodd/ categorïau ateb wedi'u hailadrodd	5	0.17

Tabl 8.2 Amcangyfrif amseru ar gyfer y cwestiwn cydsynio

Amserau ar gyfer y cwestiwn cydsynio a brofwyd yn Rownd 2			
EnwNew	Cyfartaledd amser (eiliadau)	Cod a ragwelwyd	Rhagamcan amser ar sail y codio
HcsPerm	48	2	0.37

Awgrym ar gyfer geiriad terfynol y cwestiwn

GOFYN A YW'R YMATEBWR YN PCC NEU'N BRIOD/PARTNER

HcsPerm

Fel dilyniant pwysig i'r arolwg hwn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal Arolwg Cyflwr Tai. Bydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth ar faterion megis effeithlonrwydd ynni a bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i benderfynu sut i fynd i'r afael â materion tai ledled Cymru. Er mwyn gwneud hyn, hoffem drefnu ymweliad gan syrfëwr i ddod i gael golwg ar eich tŷ chi ar amser sy'n gyfleus i chi.

Bydd y syrfëwr yn edrych ym mhob un o'r prif ystafelloedd a'r tu allan i'ch cartref. Ni fyddant yn symud nac yn tarfu ar unrhyw beth. [OS 2, 3 NEU 4 YN DALIADAETH Nid oes angen i chi ymgynghori â'ch landlord.] Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn cael adroddiad yn amlinellu canfyddiadau'r syrfëwr. Cedwir eich holl fanylion personol yn gyfrinachol a dim ond at bwrpas ymchwil y bydd y canlyniadau'n cael eu defnyddio. Ni fydd yn bosibl eich adnabod chi o unrhyw ganlyniadau a gyhoeddir.

NID OES ANGEN I YMATEBWYR YMGYNGHORI Â CHWMNIAU RHEOLI FFLATIAU NAC UNRHYW FATH ARALL O RYDD-DDEILIAD

Fyddech chi'n fodlon cymryd rhan?

COD SENGL

Byddwn

Na fyddwn